# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

## Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

**Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy:**
- gwricwlwm priodol lle mae'r saith Maes Dysgu yn cyd-fynd a chydweithio â'i gilydd
- gweithgareddau mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys rhai a ysgogir gan y plant
- profiadau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys arwain mewn grŵp bach, dysgu fesul pâr neu weithio mewn tîm
- gwahanol adnoddau, gan gynnwys TGCh
- cyfleoedd dysgu ymarferol sy'n caniatáu iddynt dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus
- tasgau a heriau sy'n eu hannog i ddatrys problemau a thrafod.

## Ystod o brofiadau

**Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:**
- gael profiad helaeth o iaith o'u cwmpas sy'n eu trwytho yn yr iaith lafar a'r ysgrifenedig
- ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth, gan gynnwys y ddarpariaeth barhaus, ac ar draws pob Maes Dysgu
- mynegi eu hunain yn greadigol gan ddefnyddio'u dychymyg
- cael profiad o bob math o gyfryngau a thechnolegau sy'n datblygu
- cael darllen a rhannu amrywiaeth o destunau a storïau nad ydynt yn ffuglen a storïau gwerin traddodiadol, cerddi o Gymru ac o bob rhan o'r byd, gan gynnwys y rheini a ysgrifennwyd gan awduron plant enwog
- gwneud marciau/ysgrifennu mewn pob math o genre
- cyfathrebu mewn ystod o gyd-destunnau at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

## Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos heb ei uwch-oleuo. Bydd testun sydd yn sgil newydd yn ymddangos wedi'i uwch-oleuo. Bydd y testun hefyd yn cael ei ddynodi gan yr eicon canlynol.

**Sgil ADD/camau ABC ❖**

## D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.


© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273

# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

| Elfennau | Agweddau | Map llwybrau ADD<br>**Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD).** | Camau A<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** | Camau B<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** | Camau C<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | Ystyr, dibenion, darllenwyr | Rhannu sylw [*ADD 40*] | edrych ar/cydnabod eu 'llun' pan fydd oedolyn yn siarad am yr hyn y maent wedi'i wneud | rhannu eu 'llun' wrth ryngweithio ag oedolyn | dweud rhywbeth am eu llun neu newyddion y gall oedolyn ei ysgrifennu |
| | | | | dewis symbol neu lun unigol (o blith dau neu fwy) i ddisgrifio rhywbeth sydd newydd digwydd | defnyddio marc(iau) i labelu eu gwaith eu hunain |
| | | | | **dewis eu henw o ddau gerdyn enw a'u paru ag eitem sydd yn perthyn iddynt ❖** | **dewis llun(iau) neu symbol(au) neu eiriau cyfarwydd iawn i gofnodi rhywbeth a ddywedwyd a dwyn hynny i gof yn nes ymlaen ❖** |
| | | Ymwybyddiaeth o ddibyniaeth [*ADD 26*] | 'lleoli'r' sgriblo o fewn gofod diffiniedig (o fewn terfynau'r dudalen neu ar ran neilltuol o'r dudalen) gan ddangos rheolaeth weledol gynyddol | cau rhai llinellau wrth sgriblo (gan greu ffurfiau sy'n ymddangos fel siapiau) | ysgrifennu rhai llythrennau o'u henw eu hunain (gall eu ffurf fod yn anghonfensiynol) |
| | | | cyffwrdd llun neu symbol er mwyn cael gwobr weledol neu glywedol ar y cyfrifiadur neu ar gyfrifiadur llechen (yn gallu canolbwyntio ar lun fel 'targed' ond mae'n bosib na ellir gwahaniaethu rhwng yr hyn a gynrychiolir gan wahanol luniau) | dewis llun neu symbol (o blith dau new fwy) i gyfleu neges mewn meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu ar gyfrifiadur llechen | dewis lluniau neu symbolau i greu cymal byr gan ddefnyddio meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu gyfrifiadur llechen |
| | | | **arsylwi gyda diddordeb wrth i oedolyn ysgrifennu ❖** | **arsylwi oedolyn, neu gyfoed, yn ysgrifennu, yna efelychu eu gweithrediadau gan ddefnyddio pensil neu offer arall ❖** | **arsylwi oedolyn, neu gyfoed, yn ysgrifennu, yna efelychu eu gweithrediadau gan gynhyrchu patrymau tebyg i ysgrifennu ❖** |



© Hawlfraint y Goron 2014    WG21273

# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

| Elfennau | Agweddau | Map llwybrau ADD<br>**Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD).** | Camau A<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** | Camau B<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** | Camau C<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trefnu syniadau a gwybodaeth** | **Strwythur a threfn** | Cyflawni dwy weithred wahanol yn eu trefn i gael gwobr [*ADD 35*] | dyfalbarhau i wneud marciau er mwyn cynhyrchu canlyniad (sy'n ymddangos fel pe bai ar hap) | sgriblo i gynhyrchu eu 'llun' eu hunain ac yn dechrau priodoli ystyr iddo | dewis dau neu fwy o symbolau mewn dilyniant i gyfleu 'beth ddigwyddodd gyntaf … ac wedyn', a'u defnyddio i rannu gwybodaeth ag oedolyn |
| | | | | | dangos diddordeb pan fydd oedolyn yn ysgrifennu neu'n darllen eu newyddion/stori yn ôl; cadarnhau mai dyna'r hyn y maent am ei ddweud |
| **Ysgrifennu'n gywir** | **Iaith** | | | | |
| | **Llawysgrifen**<br>**Gramadeg**<br>**Atalnodi**<br>**Sillafu** | Gweithredu'n fwriadol ar amgylchedd pob dydd [*ADD 24*] | arbrofi drwy wneud marciau gan ddefnyddio rhannau'r corff, e.e. *y traed a'r dwylo* | defnyddio'r llaw a ffafrir yn fwy cyson wrth wneud marciau, gan weithiau ddefnyddio offeryn (wedi'i addasu) | rhoi cynnig ar amrywiaeth o offer i wneud marciau a siapiau ar bapur neu ar ddeunydd priodol arall |
| | | Gwneud marciau dros arwynebedd mawr, e.e. *yn symud y fraich gyfan* [ddim ar fap llwybrau ADD ond yn berthnasol] | gafael mewn eitemau a dechrau defnyddio'r bysedd i wneud marciau (e.e. *mewn tywod gwlyb, ewyn, ac ati*), gan ddatblygu i sgriblo ar bapur. | **defnyddio ystod o weithrediadau i wneud amryw o farciau, e.e. *dotiau a llinellau mewn gwahanol gyfeiriadau a phatrymau cylchol* ❖** | ceisio dargopïo siapiau a llythrennau mawr |
| | | | | | cynnwys rhai siapiau tebyg i lythrennau, neu ffurfiau tebyg i eiriau (gyda bylchau rhyngddynt), wrth dynnu llun |
| | | | | | tynnu rhai lluniau cynrychioliadol, e.e. *person neu anifail.* |



© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273